**Cerdd gan plant Ysgol Glanrafon:**
**Alis, Cadan, Cai, Elen, Elis, Lydia, Megan, 9 oed**
**Daniel, Eleri, Nia, Roman, 10 oed & Rhys, 11 oed**

Ar Y Beili
Dwi'n hoffi gwario amser efo fy nheulu
Dwi'n hoffi chwarae yn y parc
Dwi'n hoffi pigo plastig
Dwi'n hoffi dringo coed
Dwi'n hoffi chwarae boccia, a phêl-droed, a tag ...
Dwi'n hoffi gweld pobl Yr Wyddgrug yno

Ar Y Beili
Dwi'n hoffi gweld gwiwerod yn bwyta cnau
Dwi eisiau creu tŷ draenog
Dwi eisiau creu siglen
Dwi wedi cael picnic
Dwi wedi gwylio sioe
Dwi wedi chwarae gyda dail.

**Cerddi wedi'u hysbrydoli gan gerdd y bardd Alun, 'Rhywun'**
**Alis, Cadan, Cai, Elen, Elis, Lydia, Megan, 9 oed**
**Daniel, Eleri, Nia, Roman, 10 oed & Rhys, 11 oed**

Tra bo'r Wyddfa yn dal yn uchel
Tra bo dail yn syrthio
Tra bo coed yn tyfu ac yn rhoi ocsigen
Tra bo blodau'n agor
Tra bo'r gwynt yn chwyrlio
Tra bo gwiwerod yn bwyta
Byddwn ni wastad yn caru'r Beili

Tra bo'r Wyddgrug yn dal yn dref
Tra bo'r farchnad yn brysur
Tra mod i'n caru dad a mam
Tra bo barddoniaeth dal yn fyw
Tra bo'r byd yn troi
Tra bod siglen yn dal i siglo
Byddwn ni'n hoffi'r Beili

**Mae lleisiau carreg Y Beili'n siarad ….**

Dechreuais i wrth afon ddistaw drist.
Cefaid fy symud i Fryn y Beili, ar ychydig o laswellt gwyrdd wrth goeden fawr.
Rydwi'n lot hapusach yma.
*Gan Elen*

Fe hoffwn fyw mewn castell sydd wedi'ei amgylchu gyda glaswellt.
Hoffwn i fod o ar Y Beili, ond dim ond carreg ydw i.
*Llais Jeff y Garreg, gan Rhys*

Dwi'n hoffi breuddwydio am Y Beili:
pethau neis fel pobl yn pigo plastig mewn parc,
Neu bobl yn bod yn garedig,
Fel chwarae hefo'i gilydd, ar y siglen neu si-so.
Ond dwi ddim yn gallu gwneud dim byd, oherwydd dwi jyst yn garreg.
*Llais Bob y Garreg, gan Daniel*

Pan ron i'n ifanc , ron i'n byw yn y parc,
Ond roedd bachgen bach wedi fy mhigo fi
A chario fi i'r Beili, a rŵan dwi fama!
*Llais Harri'r Garreg, gan Lydia*

Ron i'n arfer byw wrth ymyl afon,
Ond un diwrnod, cefais fy nghipio gan eryr, a glaniais ar Fryn y Beili.
Ers hynny, dwi wedi bod yn byw wrth ymyl coeden fawr yng nghanol y dail.
Dwi'n byw bywyd hapus iawn
*Llais Deric y Garreg, gan Nia*

Okami ydw i.  Fy enw i yw'r gair Siapaneaidd am 'flaidd'.
Oherwydd, un diwrnod, roedd blaidd wedi codi fi yn ei geg
A gadawodd fi yn yr Afon Alun.
Wedyn, ffeindiodd rhywun fi,
Cerddodd i'r Beili yn ystod yr Eisteddfod.
A syrthiais allan o'i boced.
Rŵan dwi'n byw yma.
*Llais Okami'r Garreg, gan Eleri*

Ron i wedi cael fy nefnyddio i greu castell,
Ond ron i wedi syrthio o'r castell
Ac rŵan fama rydw i.
*Llais Babett y Garreg, gan Alis*

Hoffwn fyw mewn tŷ, achos dwi'n oer tu allan ,
Mae pobl yn taflu fi i mewn i'r dŵr yn y parc.
Ac mae'r gwynt yn mynd â fi i bentrefi eraill.
*Llais Jack y Garreg, gan Cai*

Hoffwn glywed y gwynt a gweld y coed
Ond rydwi'n garreg, ac felly dim yn gallu clywed neu weld,
Oherwydd dim ond carreg ydw i.
*Llais Rex y Garreg, gan Roman*

Ron i ar y Beili am lot o fy mywyd
Ond ddaru mi gael fy nhaflu yn yr Afon Alun.
Es i lawr i'r pentref a hitio fy mhen ar garreg - a bron marw!
Ond ddaru rhywun pigo fi i fyny a mynd â fi adref.
*Llais John y Garreg gan Cadan*

Helo! Kevin y garreg ydw i.
Rydw i'n byw yn Parc y Beili hefo ci.
Rwyf wedi bod yma ers amser maith.
Pan ron i'n fach, don i ddim yn dda.
Ron i efo mwd mwdlyd ar fy nghroen garw a chaled.
Dyma'r cwbl dw i'n cofio, oherwydd dim ond carreg ydw i.
*Llais Kevin y Garreg, gan Megan*

Rydw i'n garreg.
Roedd bachgen wedi cymryd fi o'r Afon Alun a fy ngadael yn y Beili.
Creais i ffrindiau mawr.
Maen nhw'n sefyll mewn cylch,
Oherwydd mae'r Eisteddfod wedi bod yn Yr Wyddgrug.
*Llais Kevin y Garreg, gan Elis*